Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Cilcennin**
**Cilcennin**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 8RH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wledig hon wedi ei lleoli ym mhentref Cilcennin, ger Aberaeron yng Ngheredigion. Mae 36 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae'r niferoedd wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig o gwmpas.

Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth o oed cymysg gan un athro amser llawn a thri athro rhan-amser. Mae gan oddeutu 20% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys nifer fach iawn o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae gan tua 14% o'r disgyblion hawl i dderbyn cinio di-dâl sydd yn is na'r ffigwr sirol a chenedlaethol.

Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Nod yr ysgol yw addysgu pob disgybl i fedru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Cymraeg yw'r brif iaith yn y cartref i 11% o'r disgyblion. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 2006. Mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ysgol arall yn yr ardal.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cilcennin yn 2013-2014 yw £4,458. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Cilcennin yn safle 23ain o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhif yn eu gweithgareddau;
- safon yr addysgu ar y cyfan yn dda;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais a gydag agweddau da tuag at ddysgu;
- disgyblion yn elwa o'r sesiynau cymorth ychwanegol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus, gydag ethos cynnes a chroesawgar.

Fodd bynnag:

- nid yw canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o flynyddoedd;
- mae datblygiad medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion yn anwastad;
- nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cael eu hymestyn yn llawn;
- nid yw'r cynllunio tymor byr yn ddigon cadarn yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau darpariaeth gyson ar draws holl agweddau'r cwricwlwm;
- mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o flynyddoedd; ac
- nid yw gweithdrefnau sicrhau iechyd a diogelwch yn ddigon cadarn ym mhob achos.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth gydwybodol y pennaeth yn ennill cydweithrediad llawn y corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill;
- yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn cydweithio'n dda fel tîm;
- y cynllun gwella yn cynnwys meysydd cywir i'w datblygu;
- mentrau newydd yn hyrwyddo cynnydd ym medrau llythrennedd y disgyblion; a bod
- canlyniadau asesiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd ar i fyny.

Fodd bynnag:

- nid yw'r cynlluniau gwella sydd ar waith wedi datblygu'n ddigonol i gael effaith lawn ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad;
- nid oes digon o gyswllt rhwng deilliannau arfarnu a chynllunio'r cwricwlwm i arwain yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd;

- mae’r gweithdrefnau i wella presenoldeb y disgyblion yn ddatblygiad diweddar; ac
- nid oes strwythur digon cadarn bob amser i brosesau arwain a chynllunio’r ddarpariaeth i hyrwyddo gwelliannau cyson.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniad y disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Cryfhau medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion

A3 Gwella cynllunio tymor byr yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau darpariaeth gyson ar draws holl agweddau'r cwricwlwm

A4 Gwella cyfraddau presenoldeb y disgyblion

A5 Ffurfioli agweddau ar y trefniadau sicrhau iechyd a diogelwch

A6 Cryfhau gweithdrefnau arwain a chynllunio'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau cyson

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw ar ddysgu blaenorol yn briodol. Mae lleiafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 yn bennaf, mae ystod geirfa, cywirdeb mynegiant a hyder disgyblion i drafod eu gwaith yn amrywio'n sylweddol. Nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau yn Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg gan ddefnyddio geirfa briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd gyda mynegiant clir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae medrau darllen disgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn fwy anwastad, yn arbennig yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth ddigonol. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn trafod cynnwys eu llyfrau yn effeithiol yn Saesneg, yn cynnwys mynegi barn am eu hoff awduron. Ar draws yr ysgol, nid yw gallu disgyblion i drafod cynnwys eu llyfrau Cymraeg wedi datblygu cystal.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol mewn amrediad o ffurfiau gan ddechrau amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lleiafrif y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu a defnyddiant fedrau atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan. Mae gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn y Gymraeg yn cynnwys gwallau mynegiant a sillafu. Nid yw gallu disgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy galluog, i ysgrifennu'n estynedig ar draws y pynciau wedi datblygu'n llawn. Ar draws yr ysgol, mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn effeithiol yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol yn hyderus ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau. Gallant gasglu, cofnodi a dehongli data yn effeithiol gan ddefnyddio ystod gynyddol o ffynonellau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif. Mae'r mwyafrif yn gwneud cyfrifiadau yn y pen ac yn egluro'r strategaethau a ddefnyddiant yn effeithiol. Maent yn defnyddio ffurfiau mesur gwahanol a thermau cywir wrth drafod a chofnodi eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru casglu a chynrychioli data mewn tasgau rhif ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwersi gwyddoniaeth, er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhif a mesur i gyflwyno eu casgliadau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n adeiladol o fewn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu cystal. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros gyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn y pynciau craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd ond yn dangos tuedd ar i fyny. Yn 2013, mae canlyniadau disgyblion mewn cyfuniad yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% isaf.

O gymharu â chyfartaleddau'r teulu, mae canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% isaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, yn y 25% isaf yn gyson.

**Lles: Digonol**

Mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel iawn yn eu hysgol ac yn gwybod at bwy i droi ar unrhyw adeg o bryder. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda gyda phawb yn gwrtais at ei gilydd ac at ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd diddordeb yn eu gwaith ac yn gweithio'n ddyfal i gwblhau eu tasgau.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o blith ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymfalchïo yn eu dyletswyddau i helpu eu cyd-ddisgyblion a'u hymdrechion i godi arian er lles eraill. Maent yn cyfrannu at benderfyniadau yn ymwneud â datblygu'r ardd ac yn sicrhau bod yr ardaloedd tu allan yn daclus. Nid yw eu rôl o ran cyfrannu'n benodol at benderfyniadau am weithgareddau'r ysgol a'u haddysg wedi datblygu'n llawn.

Mae ethos yr ysgol a'r cyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned, megis y cwrdd diolchgarwch, yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn effeithiol. Mae system 'bydis' yr ysgol yn hyrwyddo cyfeillgarwch yn llwyddiannus ac mae'r disgyblion hŷn yn arbennig o ofalgar o'r disgyblion iau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu ar draws yr ysgol sydd, ar y cyfan, yn ymateb i ddiddordebau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae ansawdd y cynllunio yn anwastad. Mae cynllunio cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gyda phrofiadau dysgu perthnasol yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau tymor byr yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigon manwl i sicrhau darpariaeth gyson ar draws holl agweddau'r cwricwlwm. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn sicrhau bod tasgau bob amser yn cynnig yr her briodol i ddisgyblion o ystod oed a gallu eang, yn cynnwys y disgyblion mwy galluog.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r athrawon yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm wedi ei wreiddio i'r un graddau.

Mae strategaethau priodol yn datblygu i wella safonau llythrennedd Cymraeg y disgyblion. Caiff ymagweddau cadarnhaol eu meithrin ond nid yw'r datblygiadau sydd ar waith wedi ymsefydlu'n ddigonol i gael effaith lawn ar wella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael sylw addas mewn gwersi hanes, daearyddiaeth, celf a cherdd a thrwy ymweliadau â mannau o ddiddordeb hanesyddol yn yr ardal.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy drwy weithgareddau megis plannu a thyfu llysiau yng ngardd yr ysgol ac ailgylchu plastig a phapur. Mae'r prosiect ar Lesotho a chydweithio gydag ymwelydd o'r Almaen yn cynnig rhai cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Er hynny, nid yw'r agweddau hyn wedi'u datblygu'n llawn.

**Addysgu: Da**

Mae’r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol sicr a gwnânt ddefnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae ffocws amlwg ar adeiladu ar waith blaenorol, cyflwyniadau bywiog a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau. Mae cydweithio agos rhwng y staff addysgu a chynorthwyol yn ychwanegu’n adeiladol at y profiadau dysgu a ddarperir.

Mewn ychydig o wersi, nid yw’r tasgau yn cynnig yr her briodol i ymestyn dysgu’r disgyblion ac nid oes digon o gymorth i gynorthwyo disgyblion ieuengaf dosbarth cyfnod allweddol 2 gyda’u gwaith.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau i dracio cynnydd disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio’n rheolaidd ac mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol iddynt yn y gwersi. Lle mae enghreifftiau da o ymateb yn ysgrifenedig, mae sylwadau athrawon o gymorth ac mae defnydd adeiladol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r sylwadau bob amser yn nodi yn ddigon clir yr hyn sydd angen i’r disgyblion ei wneud i wella safon eu gwaith. Mae targedau unigol y disgyblion yn rhoi cyfle gwerthfawr iddynt i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gynnydd a chyflawniad eu plant trwy adroddiadau priodol a chyfarfodydd rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned glos gyda naws deuluol. Mae cyfleoedd cyson i hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion drwy adnoddau chwarae’r ysgol a’r gwersi addysg gorfforol yn yr ysgol ac mewn canolfannau lleol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r clybiau garddio a choginio, o dan arweiniad rhieni, yn addysgu’r disgyblion yn effeithiol am dyfu a gofalu ar ôl bwyd a sut i’w baratoi, gan bwysleisio hylendid a diogelwch.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae sesiynau cyd-addoli a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu’n gadarnhaol i’r meysydd hyn.

Mae’r ysgol yn adnabod anghenion dysgu gwahanol y disgyblion yn briodol trwy arsylwi cyson, cyd drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae’r athrawes anghenion dysgu ychwanegol yn cynnig cymorth da ac yn gwneud defnydd adeiladol o ystod o strategaethau i gynorthwyo grwpiau gwahanol o ddisgyblion mewn sesiynau cefnogi. Mae’r athrawon yn darparu cynlluniau addysgu unigol sy’n gosod targedau clir, penodol a mesuradwy. Caiff y rhain eu hadolygu’n rheolaidd ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n briodol gyda gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys gwasanaethau cefnogi disgyblion, nyrs a’r heddlu, er mwyn sicrhau

cefnogaeth bellach. Gyda chydweithrediad y swyddog lles, mae trefniadau addas yn cael eu rhoi ar waith i wella lefelau presenoldeb.

Mae gan yr ysgol bolisi diogelu ond nid yw gweithdrefnau sicrhau iechyd a diogelwch yn ddigon cadarn i ateb y gofynion yn llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn meddu ar ethos cyfeillgar a hapus ac yn sicrhau mynediad llawn i bawb i'r holl weithgareddau. Mae staff yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y disgyblion ac yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'r wybodaeth hon. Dengys disgyblion a staff barch, gofal a chonsyrn at ei gilydd ac eraill.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r adeiladau a'r safle. Er bod rhannau o'r adeiladau yn hen ac angen gwaith cynnal a chadw pellach, maent yn lân a thaclus. Ar adegau, nid oes lle digonol ac amgylchedd priodol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymgymryd â'u gweithgareddau grŵp yn y prif adeilad.

Mae arddangosfeydd lliwgar o waith a phrofiadau'r disgyblion yn cyfrannu at greu amgylchedd diddorol. Mae'r staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod briodol o adnoddau i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ardaloedd allanol yn eang ac yn cynnig amgylchedd deniadol i'r disgyblion. Mae'r ardd, y parc antur a'r ardal dysgu tu allan y Cyfnod Sylfaen yn datblygu yn adnoddau dysgu effeithiol ar gyfer hyrwyddo medrau'r disgyblion ar draws y meysydd dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth gydwybodol y pennaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae'r cyfathrebu cyson gyda'r staff, rhieni a'r llywodraethwyr yn gryfder. Llwyddir i greu ethos lle mae'r disgyblion a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r tri aelod o staff addysgu, sydd ar gytundebau rhan amser, yn cydweithio'n agos gyda'r pennaeth ac yn rhannu'r un gwerthoedd. Maent yn deall eu rolau ac yn eu cyflawni'n effeithiol. Nid oes cyfrifoldebau arwain ar lefel ysgol gyfan wedi eu rhannu ymysg y staff.

Mae'r pennaeth yn ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau cydlynu. Er bod cyfarfodydd staff rheolaidd, nid yw'r gweithdrefnau arwain a chynllunio yn ddigon strwythuredig bob amser i gael digon o ddylanwad ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, nid oes strwythur clir i hybu dilyniant a pharhad cyson ym medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn deall eu cyfrifoldebau. Trwy ystyried data perthnasol, trafodaethau gyda’r pennaeth ac ymweliadau â’r ysgol, mae ganddynt wybodaeth sicr am sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn dechrau herio’r ysgol yn fwy fel ffrindiau beirniadol.

Mae’r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol yr ystod briodol o bolisïau. Fodd bynnag, nid oes monitro digonol i wneud yn siŵr bod yr holl agweddau yn ymwneud â threfniadau sicrhau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu’n llawn.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r Cyfnod Sylfaen wedi’i sefydlu’n llwyddiannus ac mae rhaglenni ymyrraeth yn cynnig cymorth da i grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn datblygu’r defnydd o’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd mewn agweddau o’u cynllunio. Mae’r nod o wella safonau Cymraeg y disgyblion yn flaenoriaeth ddilys i’r ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r prif feysydd i’w gwella. Mae ystod o brosesau priodol ar waith ar gyfer arfarnu’r ddarpariaeth a chynnydd y disgyblion, gan gynnwys ystyried data, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Nid oes trefniadau ffurfiol i ganfod barn y rhieni a’r disgyblion.

Cedwir cofnodion monitro manwl ac mae’r gweithredu sy’n dilyn wedi arwain at welliannau mewn agweddau megis datblygu medrau iaith a rhif y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyswllt rhwng deilliannau’r rhaglenni monitro a’r cynllunio i arwain y dysgu a’r addysgu yn rheolaidd.

Nid yw’r cysylltiad rhwng hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol wedi’i wreiddio’n llwyr. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys gwybodaeth addas am y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi eu hadnabod yn yr adroddiad hunanarfarnu bob amser fel agweddau sydd angen sylw.

Mae cynllun datblygu’r ysgol yn targedu meysydd penodol ac yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu clir. Mae defnydd priodol o ddata i adnabod agweddau ar gyfer datblygiad pellach. Nid yw’r holl gynlluniau sydd ar waith wedi datblygu’n ddigonol hyd yma i gael effaith lawn ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er lles a datblygiad y disgyblion. Mae partneriaeth gadarn iawn gyda’r rhieni ac mae’r ysgol yn elwa o’r cyfraniadau ariannol a’r ymrwymiad i wella adnoddau, er enghraifft datblygu gardd yr ysgol a sefydlu parc antur.

Mae partneriaeth gadarnhaol yn bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â’r defnydd o gyfleusterau’r ysgol uwchradd a’r ganolfan chwaraeon, yn cyfoethogi eu profiadau dysgu ymhellach.

Mae trefniadau pontio addas yn eu lle i'r disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Maent o gymorth i'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd. Mae'r ysgol yn elwa o gefnogaeth arbenigol staff ac adnoddau'r ysgol uwchradd i hybu medrau dylunio a thechnoleg, TGCh a chelf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar gymorth swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod lleol i'w cynorthwyo i ddatblygu ymhellach.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion y dalgylch drwy weithgareddau safoni a chymedroli. Mae'r cydweithio hwn wedi cynorthwyo athrawon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r prosesau a'r disgwyliadau ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae'r cysylltiadau gyda phrifysgol o ran lleoli a chefnogi myfyrwyr wedi arwain at bartneriaeth fuddiol wrth ddatblygu agweddau ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol. Trefnir yr ysgol ar sail dau ddosbarth, ond mae'r niferoedd yn y dosbarthiadau yn anwastad iawn.

Mae gan yr ysgol drefn sefydlog ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r athrawon yn elwa o'r hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi dechrau trafod a rhannu arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill er mwyn datblygu dulliau gwella a dysgu ar y cyd. Mae'r staff wedi ymweld ag ysgol leol i arsylwi arfer dda. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

Caiff athrawon amser priodol i baratoi, asesu a gwerthuso cynnydd y disgyblion. Mae defnydd da o'r cymorthyddion i gefnogi'r dysgu yn y dosbarth ac i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol.

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol sy'n cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion dysgu'r disgyblion a gofynion y cwricwlwm.

Caiff gwariant yr ysgol ei fonitro'n gyson gan y pennaeth a'r llywodraethwyr. Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei defnyddio'n ofalus gan gyfrannu'n briodol tuag at wella safonau a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae'r defnydd da o grantiau, a chyfraniad ffrindiau'r ysgol a'r rhieni, yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall. Nid oedd disgyblion i'w hasesu ym Mlwyddyn 6 yn 2012.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o ddwy flynedd, mae canran y disgyblion a gyflawnodd deilliant 5 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ym mhob maes.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn y pynciau craidd yn is na chyfartaleddau'r teulu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd ond yn dangos tuedd ar i fyny. Mae canlyniadau disgyblion yn 2013 o ran y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canlyniadau disgyblion mewn Saesneg a mathemateg yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn tair blynedd, ond yn dangos gwelliant yn asesiadau 2013 gyda'r canlyniadau yn gymharus â chyfartaleddau Cymru. Mewn gwyddoniaeth, mae canlyniadau'r disgyblion yn uwch na'r teulu a Chymru mewn dwy allan o bedair blynedd, ond yn is yn y blynyddoedd diweddar. Mewn Cymraeg, mae canlyniadau'r disgyblion yn gyson is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau dros gyfnod mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol y 25% isaf yn y mwyafrif o flynyddoedd, ond yn dangos gwelliant yn Saesneg yn 2013.

O gymharu â chyfartaleddau'r teulu, mae canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant uwch, sef deilliant 6, mewn sgiliau iaith a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn y 25% isaf, ac yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% isaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, yn y 25% isaf yn gyson.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 22 | 21<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 21 | 13<br>62%<br>92% | 8<br>38%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 21 | 21<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 20<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 22 | 22<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 22 | 20<br>91%<br>96% | 2<br>9%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 22 | 22<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 21 | 20<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 22 | 19<br>86%<br>91% | 3<br>14%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 21 | 21<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 21 | 6<br>29%<br>78% | 15<br>71%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 21 | 9<br>43%<br>84% | 12<br>57%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 11<br>52% | 9<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 17<br>81% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 16<br>80% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 12<br>57% | 7<br>33% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 9<br>43% | 11<br>52% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 15<br>71% | 5<br>24% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 16<br>76% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 21 | 16<br>76% | 3<br>14% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 18<br>86% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 11<br>52% | 10<br>48% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 11<br>55% | 8<br>40% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 20 | 10<br>50% | 6<br>30% | 2<br>10% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 21 | 14<br>67% | 6<br>29% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 21 | 17 | 3 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 81% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 11 | 5 | 0 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 52% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 8 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 40% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 19 | 8 | 8 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 14 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 12 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 57% | 33% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geoff Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.